

## Noson y storm

(Dyfalbarhad / wynebu anawsterau / dewrder)

Diwrnod stormus ryfeddol oedd 10 Chwefror 1936 ar hyd a lled Prydain. Ond un o'r lleoedd a gafodd hi waethaf oedd pentref bychan Ballycotton yn Iwerddon. Yn fuan ar ôl deg y noson cynt roedd y gwynt wedi codi'n nerthol. Roedd y rhan fwyaf o bobl y pentref ar eu traed trwy'r nos. Chwythai'r gwynt yn ddirugaredd a phistyllai'r glaw fel petai'n dod o grwc. Ar doriad gwawr bore'r degfed daeth y newydd fod yr oleulong *Daunt Roch* wedi torri'n rhydd a'i bod yn cael ei hyrddio ar drugaredd y tonnau. Roedd wyth o ddynton ar fwrdd yr oleulong, a'r unig ffordd i'w hachub oedd galw am gymorth y bad achub.

Cychwynnodd Patrick Sliney, y cocs'n, a chriw o saith yn y bad achub. Roedd y môr yn gynddeiriog. Roedd y tonnau'n lluchio dros y cwch. Ar brydiau byddai'r cwch yn diflannu o'r golwg gan ymchwydd y môr. Am ddwy awr bu'r criw'n chwilio'n ddyfal am y llong ond doedd dim i'w weld yn unman ond môr cynddeiriog ymhob man.

Ychydig funudau wedi hanner dydd dyma un o'r criw yn gweiddi ar y lleill. "Edrychwch reit o'n blaenau ni. Welwch chi rywbeth tywyll yn mynd i fyny ac i lawr fel corcyn?" Doedd dim dwywaith mai dyma'r oleulong. Hyrddiwyd y bad achub drwy'r tonnau ac ymhen hanner awr roedd wedi cyrraedd y llong.

Y gamp yn awr oedd ceisio cael rhaff wifren gref drosodd ar fwrdd yr oleulong er mwyn ei thynnu i'r harbwr. Am oriau bu criw'r bad achub a chriw'r llong yn ceisio'u gorau glas i gysylltu'r ddwy ond methiant fu hi bob tro. Pan fyddai'r rhaff wedi'i thafu i'r llong yna byddai ton anferth yn dod ac yn dad-wneud y cyfan. Ar ôl pedair awr ar hugain o ymdrechu caled bu'n rhaid i'r bad achub droi tua'r harbwr i gael mwy o danwydd. Cafodd y criw gyfle i gael tamaid i'w fwyta o gorffwyso gan obeithio y byddai'r storm wedi chwythu'i phlwc erbyn hyn. Ond gwaethygu roedd y gwynt a'r glaw.

Ar ôl ceisio droeon i daflu'r rhaff i'r oleulong a hithau bellach yn mynd yn nes ac yn nes at y creigiau roedd yn rhaid gweithredu ar frys.

Cyhoeddodd y cocs'n, "Does gynnon ni ddim dewis ond ceisio llywio'r bad achub cyn agosed ag y medrwn ni at y llong er mwyn i'r criw gael neidio ar fwrdd y bad achub. Os byddan nhw'n

methu, wrth gwrs... wel, dyna'r diwedd..." aeth ei eiriau ar goll yn sŵn cynddaredd y gwynt a rhu'r tonnau.

Hyrddiwyd y bad achub yn nes ac yn nes at y llong ond daeth ton enfawr a phellhau'r bwlich rhwg y ddwy long. Serch hynny llwyddodd chwech o griw'r oleulong i neidio'n saff, ond roedd dau ar ôl. Roedd y ddau yn sefyll yn wlyb domen ar ochr y llong ac yn rhy wan i neidio.

"Mae'n rhaid i ni fynd â'r bad achub yn nes at y llong," gwaeddodd y cocs'n, "a'r tro hwn bydd rhaid i ni geisio cael gafael ynddyn nhw a'u llusgo nhw i mewn i'r bad achub."

Yn araf aeth y bad achub yn nes ac yn nes at yr oleulong. Roedd pob aelod o'r criw yn barod a'u breichiau agored i geisio cael gafael yn y dynion. Hyrddiai'r tonnau'n ddirugaredd ond roedd nerth y bad achub yn ei gyrru'n nes ac yn nes... ac yn nes. Roedden nhw'n ddigon agos i afael yn y ddau a'u llusgo ar fwrdd y bad achub. Ar ôl 66 awr ar y môr roedd criw'r bad achub wedi llwyddo i achub y dynion i gyd.



Adnod: "A disgynnodd tymestl o wynt ar y llyn; yr oedd y cwch yn llenwi, a hwythau mewn perygl." Luc 8:23



Gweddi: Gweddiwn heddiw dros griw badau achub trwy'r wlad sy'n barod i fentro'u bywydau i achub eraill. Amen.



Trafod:

- A fydech chi'n dweud fod criw'r bad achub wedi gorfentro wrth wneud yr hyn wnaethon nhw y diwrnod hwnnw?
- Chwiliwch am fwy o wybodaeth am waith Badau Achub.